



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 Rhif 283 (Cy.34)

2002 No. 283 (W.34)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid
(Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002**

**The Animal Gatherings (Interim
Measures) (Wales) Order 2002**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn datgymhwyso dros dro ac yn cymryd lle Gorchymyn Marchnadoedd, Gwerthiannau a Llociau 1925 (O.S. 1925/1349) (fel y'i diwygiwyd) mewn perthynas â Chymru.

This Order temporarily disappplies and replaces the Markets, Sales and Lairs Order 1925 (S.I. 1925/1349) (as amended) in relation to Wales.

Y mae'n gwahardd defnyddio tir ac adeiladau ar gyfer crynadau anifeiliaid oni bai fod trwydded i ganiatáu'r gweithgarwch hwnnw (erthygl 3).

It prohibits the use of premises for animal gatherings unless there is a licence permitting that activity (article 3).

Mae'n gofyn bod-

It requires-

- tir ac adeiladau a ddefnyddir i grynhoi anifeiliaid arnynt ac ynddynt yn rhydd o anifeiliaid am 28 diwrnod cyn ac ar ôl y cyfryw ddigwyddiad oni bai y gellir glanhau y tir a'r adeiladau hynny a bod y tir a'r adeiladau hynny wedi'u glanhau a'u diheintio'n gywir (Atodlen 1 paragraffau 1 -5);
- tir ac adeiladau sydd wedi cael eu halogi yn cael eu glanhau a'u diheintio cyn cael eu defnyddio i grynhoi anifeiliaid (Atodlen 1, paragraff 6);
- deunydd gwastraff sy'n deillio o grynoadau anifeiliaid yn cael ei waredu yn gywir (Atodlen 1, Paragraff 7).

- premises used for animal gatherings to be free of animals for 28 days before and after such an event unless those premises can be and are properly cleansed and disinfected (Schedule 1 paragraphs 1 - 5);
- premises that have become contaminated to be cleansed and disinfected prior to being used for an animal gathering (Schedule 1, paragraph 6);
- waste material derived from animal gatherings to be properly disposed of (Schedule 1, Paragraph 7).

Ni pharatowyd arfarniad o'r rheoliadau hyn ar gyfer y Gorchymyn hwn.

A regulatory appraisal has not been prepared for this Order.

2002 Rhif 283 (Cy.34)

2002 No. 283 (W.34)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid
(Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002The Animal Gatherings (Interim
Measures) (Wales) Order 2002*Wedi'i wneud*

8 Chwefror 2002

Made

8th February 2002

Yn dod i rym

11 Chwefror 2002

Coming into force

11th February 2002

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Gweinidog dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1, 7, 8 a 83 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(a) a phob pŵer arall sy'n eu galluogi yn y cyswllt hwnnw, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

The National Assembly for Wales and the Minister of Agriculture, Fisheries and Food, acting in exercise of the powers conferred on them by sections, 1, 7, 8 and 83 of the Animal Health Act 1981(a) and of all other powers enabling them in that behalf, make the following Order:

Enwi, Cymhwyso a Chychwyn

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002 ac mae'n gymwys i Gymru.

Title, application and commencement

1.-(1) This Order may be cited as the Animal Gatherings (Interim Measures) (Wales) Order 2002 and it applies to Wales.

(2) Daw i rym ar 11 Chwefror 2002 ac fe fydd yn peidio a bod mewn grym ar 1 Rhagfyr 2002.

(2) It comes into force on 11th February 2002 and shall cease to have effect on 1st December 2002.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn, oni bai fod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

ystyr "crynhoad anifeiliaid" ("*animal gathering*") yw achlysur pryd deuir ag anifeiliaid ynghyd at ddibenion -

- (a) gwerthu;
- (b) dangos;
- (c) arddangos;
- (ch) i'w traddodi ymlaen i'w lladd o fewn Prydain Fawr; neu
- (d) yn achos gwartheg stôr, i'w traddodi ymlaen o

Interpretation

2. In this Order, unless the context otherwise requires:

"animal gathering" ("*crynhoad anifeiliaid*") means an occasion at which animals are brought together for the purposes of -

- (a) sale;
- (b) show;
- (c) exhibition;
- (d) onward consignment for slaughter within Great Britain; or
- (e) in the case of store cattle, onward consignment

(a) 1981 p.22. *Gweler* adran 86(1) ar gyfer diffiniadau o "the Ministers" a "the Minister". Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers" cyn belled â'u bod yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Chymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); a chyn belled â'u bod yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban mewn perthynas â Chymru i'r Gweinidog dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141).

(a) 1981 c.22. *See* section 86(1) for the definitions of "the Ministers" and "the Minister". Functions of "the Ministers" so far as exercisable by the Secretary of State for Wales in relation to Wales were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672); and so far as exercisable by the Secretary of State for Scotland in relation to Wales were transferred to the Minister of Agriculture, Fisheries and Food by the Transfer of Functions (Agriculture and Food) Order 1999 (S.I. 1999/3141).

fewn Prydain Fawr ar gyfer pesgu pellach neu eu gorffen,

ac mae'n cynnwys derbyn neu gadw dros dro yr anifeiliaid hynny; ac

ystyr "diheintydd a gymeradwywyd" ("*approved disinfectant*") yw diheintydd a restrir yng Ngorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) 1978(a) fel un a gymeradwywyd am y tro i'w defnyddio o dan orchmynion cyffredinol.

Defnyddio tir ac adeiladau ar gyfer crynadau anifeiliaid

3.-(1) Yn ddarostyngedig i erthygl 4 isod, rhaid i bob person beidio â defnyddio tir ac adeiladau ar gyfer crynhoad anifeiliaid-

- (a) yn groes i ddarpariaethau'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn; a
- (b) oni bai fod y tir a'r adeiladau hynny wedi'u trwyddedu i'r diben hwnnw gan arolygydd milfeddygol.

(2) Rhaid i'r drwydded y cyfeirir ati ym mharagraff (1) uchod-

- (a) fod yn ysgrifenedig;
- (b) fod yn bosibl ei diwygio, ei hatal dros dro neu ei diddymu drwy hysbysiad ysgrifenedig wedi ei gyhoeddi gan arolygydd milfeddygol; ac
- (c) fod yn ddarostyngedig i'r cyfryw amodau ag y barna'r arolygydd milfeddygol yn angenrheidiol er mwyn rheoli cyflwyno neu ledaenu clefyd o fewn neu oddi wrth y tir a'r adeiladau y mae'r drwydded yn perthyn â hwy.

Eithriadau i erthygl 3

4.-(1) Ni fydd erthygl 3 uchod yn gymwys pan fydd -

- (a) yr holl anifeiliaid sy'n mynychu'r crynhoad â'r un perchennog a'r un ceidwad; a
- (b) y crynhoad anifeiliad i ddigwydd ar dir neu mewn adeilad sydd yn eiddo i neu ym meddiant perchennog yr anifeiliaid.

(2) At ddibenion yr erthygl hwn, ystyr "ceidwad" yw person sydd â'r prif gyfrifoldeb am ofal a rheoli'r anifeiliaid o ddydd i ddydd.

Gorfodi

5. Ac eithrio lle y darperir yn wahanol, rhaid i'r Gorchymyn hwn gael ei orfodi gan yr awdurdod lleol.

within Great Britain for further rearing or finishing,

and includes the reception or temporary detention of those animals; and

"approved disinfectant" ("*diheintydd a gymeradwywyd*") means a disinfectant listed in the Diseases of Animals (Approved Disinfectants) Order 1978(a) as being approved for the time being for use under general orders.

The use of premises for animal gatherings

3.-(1) Subject to article 4 below, no person shall use premises for an animal gathering-

- (a) in contravention of the provisions of the Schedule to this Order; and
- (b) unless those premises are licensed for that purpose by a veterinary inspector.

(2) The licence referred to in paragraph (1) above-

- (a) shall be in writing;
- (b) may be amended, suspended or revoked by a notice in writing issued by a veterinary inspector; and
- (c) may be subject to such conditions as the veterinary inspector considers necessary to control the introduction into or spread of disease within or from the premises to which the licence relates.

Exceptions to article 3

4.-(1) Article 3 above shall not apply where -

- (a) all the animals attending the gathering are owned by the same person and have the same keeper; and
- (b) the animal gathering is to take place on premises owned or occupied by the owner of the animals.

(2) For the purposes of this article, "keeper" means the person with principal responsibility for the day to day care and management of the animals.

Enforcement

5. Except where otherwise provided, this Order shall be enforced by the local authority.

(a) O.S. 1978/32. Offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1978/934; O.S. 1999/919 ac mewn perthynas â Chymru, O.S. 2001/641 (Cy. 31).

(a) S.I. 1978/32. Relevant amending instruments are S.I. 1978/934; S.I. 1999/919 and, as regards Wales, S.I. 2001/641 (W.31).

Gorchymyn Marchnadoedd, Gwerthiannau a Llociau 1925

6. Ni fydd Gorchymyn Marchnadoedd, Gwerthiannau a Llociau 1925(a) yn gymwys tra bod y Gorchymyn hwn mewn grym.

The Markets, Sales and Lairs Order 1925

6. The Markets, Sales and Lairs Order 1925(a) shall not apply while this Order is in force.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(b)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(b)

8 Chwefror 2002

8th February 2002

Carwyn Jones

Ysgrifennydd Cynulliad

Assembly Secretary

8 Chwefror 2002

8th February 2002

Lord Whitty

Is - Ysgrifennydd Gwladol

Parliamentary Under Secretary of State

Adran yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Bwyd

Department of Environment, Food and Rural Affairs

(a) O.S. 1925/1349 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1926/546; O.S. 1927/982 ac O.S. 1996/3265.

(b) 1998 c.38.

(a) S.I. 1925/1349 as amended by S.I. 1926/546; S.I. 1927/982 and S.I. 1996/3265.

(b) 1998 c.38.

GOFYNION CYFFREDINOL YNGHYLCH
DEFNYDDIO TIR AC ADEILADAU AT
DDIBENION CRYNOADAU ANIFEILIAID

GENERAL REQUIREMENTS FOR THE USE OF
PREMISES FOR ANIMAL GATHERINGS

**Cyfnod cyfyngedig 28 diwrnod cyn crynhoad
anifeiliaid**

1. Yn ddarostyngedig i baragraff 3 o'r Atodlen hon, rhaid i bob person beidio â chaniatáu i grynhoad anifeiliaid ddigwydd ar dir ac mewn adeiladau lle mae anifeiliaid wedi'u cadw hyd nes i 28 diwrnod fynd heibio o'r diwrnod pryd -
 - (a) yr ymadawodd yr anifail olaf â'r tir a'r adeiladau hynny; a
 - (b) y cwblhawyd glanhau halogiad gweladwy ar y corlannau, clwydi ac unrhyw gyfarpar arall y mae'r anifeiliaid wedi cael mynediad iddynt.

**Cyfnod cyfyngedig 28 diwrnod ar ôl crynhoad
anifeiliaid**

2. (a) Yn ddarostyngedig i baragraff 3 o'r Atodlen hon, rhaid i bob person beidio â chaniatáu anifeiliaid i fynd i dir ac adeiladau lle bu crynhoad anifeiliaid hyd nes i 28 diwrnod fynd heibio o'r diwrnod pryd-
 - (i) yr ymadawodd yr anifail olaf â'r tir a'r adeiladau hynny; a
 - (ii) y cwblhawyd glanhau halogiad gweladwy ar y corlannau, clwydi ac unrhyw gyfarpar arall y mae'r anifeiliaid wedi cael mynediad iddynt.
- (b) Yn ystod y cyfnod 28 diwrnod y cyfeirir ato ym mharagraff (a) uchod, rhaid i bob person beidio â symud o'r tir a'r adeiladau unrhyw gorlan, clwyd neu gyfarpar arall y mae'r anifeiliaid wedi cael mynd atynt oni bai eu bod wedi'u hysgubo neu eu crafu'n lân, eu glanhau drwy olchi â diheintydd a gymeradwywyd yn unol â chyfarwyddiadau gwneuthurwyr.

Eithriad i'r cyfnod cyfyngedig

3. Nid yw'r cyfyngiadau ym mharagraff 1 a 2 uchod yn gymwys os yw'r rhannau o'r tir a'r adeiladau y mae'r anifeiliaid yn cael mynd atynt wedi'u palmantu â sment, concriid, asffalt neu unrhyw ddeunydd caled, anhydraidd y mae modd ei lanhau a'i ddiheintio'n effeithiol ac os yw'r tir a'r adeiladau yn cael eu glanhau a'u diheintio yn unol â Pharagraffau 4, 5, a 6 isod.

**Glanhau a diheintio tir ac adeiladau wedi'u
palmantu**

4. Rhaid ysgubo neu grafu'n lân pob rhan o'r tir a'r adeiladau y cafodd yr anifeiliaid fynd iddynt (gan

**28 day restricted period prior to an animal
gathering**

1. Subject to paragraph 3 of this Schedule, no person shall allow an animal gathering to take place on premises on which animals have been kept until 28 days have passed from the day on which -
 - (a) the last animal left those premises; and
 - (b) the cleansing of visible contamination on all pens, hurdles and any other equipment to which the animals have had access, has been completed.

**28 day restricted period following an animal
gathering**

2. (a) Subject to paragraph 3 of this Schedule, no person shall allow animals onto premises on which an animal gathering has been held until 28 days have passed from the day on which -
 - (i) the last animal left those premises; and
 - (ii) the cleansing of visible contamination on all pens, hurdles and any other equipment to which the animals have had access has been completed.
- (b) During the 28 days period referred to in paragraph (a) above, no person shall remove from the premises any pen, hurdle or other equipment to which the animals have had access unless they have been swept or scraped clean, cleansed by washing and an approved disinfectant applied in accordance with manufacturers' instructions.

Exception to restricted period

3. The restrictions in paragraph 1 and 2 above do not apply if the parts of the premises to which animals have had access are paved with cement, concrete, asphalt or other hard, impermeable material that is capable of being effectively cleansed and disinfected and the premises are cleansed and disinfected in accordance with Paragraphs 4, 5 and 6 below.

Cleansing and disinfection of paved premises

4. All parts of the premises to which animals have had access (including any pens, hurdles and any other

gynnwys corlannau, clwydi ac unrhyw gyfarpar arall) ac yna eu glanhau drwy olchi a defnyddio diheintydd a gymeradwywyd yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr.

5. Rhaid i'r gwaith glanhau a diheintio a nodir ym mharagraff 4 uchod-

- (a) beidio â dechrau hyd nes i'r anifeiliaid gael eu symud o'r rhan o'r tir a'r adeiladau sydd i'w glanhau a'u diheintio; a
- (b) gael ei gwblhau ar ôl i'r anifail olaf ymadael â'r tir a'r adeiladau a chyn i'r anifeiliaid gael mynd i'r tir a'r adeiladau eto.

6. Os (am reswm nad yw'n ymwneud â phresenoldeb anifeiliaid yno) yw'r tir a'r adeiladau yn cael eu halogi gan ysgarthion anifeiliaid neu ddeunydd arall o darddiad anifeilaidd neu unrhyw halogyn o darddiad anifeilaidd yna rhaid ysgubo neu grafu'n lân y tir a'r adeiladau neu'r rhannau hynny a halogwyd felly, ac yna eu glanhau drwy olchi a defnyddio diheintydd a gymeradwywyd yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr cyn i unrhyw anifeiliaid gael mynd i'r tir a'r adeiladau eto.

Gwaredu gwastraff o grynoadau anifeiliaid

7. Rhaid i bob bwyd y cafodd yr anifeiliaid fynd ato, a phob sarn, ysgarthion, a deunydd arall o darddiad anifeilaidd a halogion eraill sy'n deillio o'r anifeiliaid yn y crynhoad anifeiliaid, cyn gynted â phosibl a chyn i'r anifeiliaid gael mynd i'r tir a'r adeiladau eto, gael-

- (a) eu distrywio;
- (b) eu trin er mwyn tynnu'r perygl o drosglwyddo afiechyd; neu
- (c) eu gwaredu fel nad yw'r anifeiliaid yn cael mynd atynt.

equipment) must be swept or scraped clean and then cleansed by washing and an approved disinfectant applied in accordance with manufacturers' instructions.

5. The cleansing and disinfecting set out in paragraph 4 above-

- (a) must not begin until the animals have been removed from the part of the premises to be cleansed and disinfected; and
- (b) must be completed after the last animal has left the premises and before animals are allowed onto the premises again.

6. If (for a reason other than the presence of animals there) the premises become contaminated with animal excreta or other material of animal origin or any contaminant derived from animals, then the premises or those parts that have become so contaminated must be swept or scraped clean and then cleansed by washing and an approved disinfectant applied in accordance with manufacturers' instructions before any animals are allowed onto the premises again.

Disposal of waste from animal gatherings

7. All feedingstuffs to which the animals have had access, and all bedding, excreta, other material of animal origin and other contaminants derived from the animals at the animal gathering shall, as soon as possible and before animals are allowed to enter the premises again, be-

- (a) destroyed;
- (b) treated so as to remove the risk of transmission of disease; or
- (c) disposed of so that animals do not have access to it.

OFFERYNNAU STATUDOL

2002 Rhif 283 (Cy.34)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid
(Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 No. 283 (W.34)

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

The Animal Gatherings (Interim
Measures) (Wales) Order 2002

© Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£2.00


W0040/02/02

ON

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090427-3



9 780110 904276